

**2018 Rhif (Cy. )**

**2018 No. (W. )**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r  
A458 (Croesfan Reilffordd Moat  
Lane, Caersŵs a Chroesfan  
Reilffordd Tal-y-bont, Tal-y-bont,  
Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros  
Dro) 2018

The A470 & A458 Trunk Roads  
(Moat Lane Level Crossing,  
Caersws and Buttington Level  
Crossing, Buttington, Powys)  
(Temporary Prohibition of  
Vehicles) Order 2018

*Gwnaed* 13 Medi 2018

*Made* 13 September 2018

*Yn dod i rym* 20 Medi 2018

*Coming into force* 20 September 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470 a'r darn perthnasol o Gefnffordd yr A458, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 Trunk Road and the relevant length of the A458 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A458 (Croesfan Reilffordd Moat Lane, Caersŵs a Chroesfan Reilffordd Tal-y-bont, Tal-y-bont, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 20 Medi 2018.

1. The title of this Order is the A470 & A458 Trunk Roads (Moat Lane Level Crossing, Caersws and Buttington Level Crossing, Buttington, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018 and it comes into force on 20 September 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "y cefnffyrdd" ("the trunk roads") yw Cefnffordd yr A470 y Drenewydd i Aberystwyth a Chefnffordd yr A458 yr Amwythig i Ddolgellau;

"the trunk roads" ("y cefnffyrdd") means the A470 Newtown to Aberystwyth Trunk Road and the A458 Shrewsbury to Dolgellau Trunk Road;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau ar 20 Medi 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith.

### **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

### **Cymhwyso**

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

### **Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

13 Medi 2018

*Richard Morgan*

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

### **YR ATODLEN**

Y darn o gefnffordd yr A470 yng Nghaersŵs, Powys, sy’n ymestyn o bwynt 20 metr i’r gogledd o groesfan reilffordd Moat Lane hyd at bwynt 20 metr i’r de o’r groesfan reilffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A458 yn Nhal-y-bont, Powys sy’n ymestyn o bwynt 20 metr i’r dwyrain o groesfan reilffordd Tal-y-bont hyd at bwynt 20 metr i’r gorllewin o’r groesfan reilffordd honno.

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing on 20 September 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

### **Prohibition**

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

### **Application**

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### **Duration of this Order**

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

13 September 2018

*Richard Morgan*

Head of Planning, Asset Management and Standards  
Welsh Government

### **SCHEDULE**

The length of the A470 trunk road at Caersws, Powys that extends from a point 20 metres north of Moat Lane level crossing to a point 20 metres south of the level crossing.

The length of the A458 trunk road at Buttington, Powys that extends from a point 20 metres east of Buttington level crossing to a point 20 metres west of the level crossing.

**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A470 A'R  
A458 (CROESFAN REILFFORDD MOAT LANE,  
CAERSŴS A CHROESFAN REILFFORDD TAL-  
Y-BONT, TAL-Y-BONT, POWYS) (GWAHARDD  
CERBYDAU DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, wrth groesfan reilffordd Moat Lane, Caersŵs, a chefnffordd yr A458 wrth groesfan reilffordd Tal-y-bont, Tal-y-bont, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darnau a ganlyn o'r cefnffyrdd:

i. y darn o'r A470 sy'n ymestyn am bellter o 20 metr y naill ochr a'r llall i groesfan reilffordd Moat Lane.

Pan fydd y ffordd ar gau dros y penwythnos (22:00 o'r gloch nos Sadwrn - 09:00 o'r gloch ddydd Sul a 22:00 o'r gloch nos Sul - 06:00 o'r gloch ddydd Llun) y llwybr arall i draffig sy'n teithio tua'r de fydd mynd ar yr A470 tua'r gogledd-orllewin i Gaersŵs, y B4569 tua'r gorllewin/de i Lanidloes a'r B4518 tua'r dwyrain i ailymuno â'r A470 tua'r de/gogledd: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd.

Ar bob adeg arall, y llwybr arall i draffig sy'n teithio tua'r de fydd mynd ar yr A489 tua'r dwyrain i'r Drenewydd, yr A483 tua'r de i'r Groes a'r A44 tua'r gorllewin i Raeadr Gwy er mwyn ailymuno â'r A470 tua'r de/gogledd: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd.

ii. y darn o'r A458 sy'n ymestyn am bellter o 20 metr y naill ochr a'r llall i groesfan reilffordd Tal-y-bont.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin fydd mynd ar y B4388 tua'r de, y B4381 Leighton Road tua'r gorllewin, yr A483 tua'r gogledd a'r A458 tua'r dwyrain: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym ar 20 Medi 2018 ac yn weithredol, yn ysbeidiol, am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2018).

**THE A470 & A458 TRUNK ROADS (MOAT  
LANE LEVEL CROSSING, CAERSWS AND  
BUTTINGTON LEVEL CROSSING,  
BUTTINGTON, POWYS) (TEMPORARY  
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road at Moat Lane level crossing, Caersws and the A458 trunk road at Buttington level crossing, Buttington, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the following lengths of the trunk roads:

i. the length of the A470 that extends for a distance of 20 metres either side of Moat Lane level crossing.

During weekend closures (22:00 hours Saturday – 09:00 hours Sunday and 22:00 hours Sunday – 06:00 hours Monday) the alternative route for southbound traffic will be via the north-westbound A470 to Caersws, west/southbound B4569 to Lanidloes and eastbound B4518 to rejoin the south/northbound A470: vice versa for northbound traffic.

At all other times, the alternative route for southbound traffic will be via the eastbound A489 to Newtown, southbound A483 to Crossgates and westbound A44 to Rhayader to rejoin the south/northbound A470: vice versa for northbound traffic.

ii. the length of the A458 that extends for a distance of 20 metres either side of Buttington level crossing

The alternative route for westbound vehicles will be via the southbound B4388, westbound B4381 Leighton Road, northbound A483 and eastbound A458: vice versa for eastbound vehicles.

It is expected that the temporary prohibitions, which will be signed accordingly, will come into force on 20 September 2018 and operate, intermittently, for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn  
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,  
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc  
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be  
obtained from Orders Branch, Transport,  
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff  
CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government